4.132

## Cyfarchiad i'r Arch-Dderwydd Dyfed.

Awst 5ed 1909.

Ein Dyfed hoff anwyl,
Dy enwafawr sydd,
O eithaf Caergybi,
I ddinas Caerdydd:
Yr wyt yn garuaidd,
Os uchel dy swydd,
Peth hawdd yw dynesu,
Bob amser i'th wydd.

Yr unig Arch-Dderwydd,
Wyt ti fedd y byd,
Ti feddi'r holl urddas,
A'r bri rydd i gyd:
Fe'n dysgi i garu,
Cyfoethog a thlawd,
I wel'd Duw'n dad i ni,
A phob dyn yn frawd.

Dy orsedd sydd, Dyfed,
Yn hen iawn a chref,
Gwna dithau hi'n deilwng,
O fendith y nef:
Mae perygl weithiau,
I rhai sy'n cael clod,
Anghofio Jehofah,
Gwir awdwr eu bod.

Yn awr anwyl Dyfed,
Pob rhad ar dy waith,
I ddyrchu dy genedl,
Dy wlad a dy iaith;
Ar gynydd yr elo,
Dy glod a dy barch,
A Chymru'th anwylo,
Yn fwy fwy hyd Arch.

Cyfansoddwydd gan y Parch D.H.Davies,
gynt Vicar Cenarth,Awst 5ed 1909, ar
ol gweled Dyfed Byfed yn cyflawni
ei ran yn y Pageant yn Caedydd
y dydd or blaen.